## 13.1 Materion Eraill — Other Matters

**Pwyllgor Cynllunio: 25.07.12**

**Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio (DFJ)**

**Argymhelliad:** Bod aelodau yn nodi'r penderfyniad i atal yr arfer o gydnabod a hysbysu trydydd partïon yn unigol ynghylch penderfyniadau a wnaed ar geisiadau am dyrbinau gwynt neu ddatblygiadau cysylltiedig.

**Cefndir a chyd-destun; Sylwadau a gafwyd mewn perthynas â datblygiadau tyrbinau gwynt neu ddatblygiadau cysylltiedig gan drydydd partion.**

Bydd yr Aelodau yn ymwybodol o'r nifer fawr o geisiadau am dyrbinau gwynt a cheisiadau cysylltiedig a gyflwynwyd yn ddiweddar. Mae'r ceisiadau hyn wedi arwain at lefel o ddiddordeb cyhoeddus na welwyd ei fath o'r blaen ac, yn ei dro, mae hynny wedi arwain at lu o sylwadau yn cael eu cyflwyno i'r Gwasanaeth Cynllunio; gall ceisiadau unigol ddenu cannoedd o lythyrau yn aml.

Y drefn gyfredol yn y Gwasanaeth Cynllunio yw cydnabod derbyn pob llythyr unigol a rhoi gwybod i'r awduron wedyn am y penderfyniad a wnaed. Bydd aelodau yn sylweddoli bod hwn yn ymarfer drud sy'n cymryd llawer o amser ac mae'n tynnu adnoddau gwerthfawr a chynyddol cyfyngedig oddi wrth y gwasanaeth rheng flaen.

Penderfynwyd felly y bydd y drefn arferol o gydnabod a hysbysu trydydd partion am benderfyniadau mewn perthynas â cheisiadau am dyrbinau gwynt a datblygiadau cysylltiedig yn dod i ben hyd nes y dywedir yn wahanol.

Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi cadw mewn cof y Cyngor yng Nghylchlythyr 32/92 "Cyhoeddusrwydd ar gyfer Ceisiadau Cynllunio" ynghyd â'r cyngor yn "Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu)(Cymru) 2012". Nid oedd unrhyw ddyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i gydnabod llythyrau trydydd partion yn unigol a'u hysbysu wedyn o'r penderfyniad.

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi ceisio mynd yn bellach na'r ddyletswydd statudol hon gan gydnabod bod hysbysu trydydd partion yn unigol yn gwrtais ac yn arfer dda. Fodd bynnag, rhaid bod yn realistig; mae paragraff 26 y Cylchlythyr yn dweud "*In reaching this decision however, the costs involved will need to be taken into account".*

Bydd y Gwasanaeth Cynllunio yn parhau i sicrhau y bydd yr holl ofynion statudol mewn perthynas â chyhoeddi'r ceisiadau hyn yn parhau fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, un ai ar ffurf rhybuddion ar y safle, hysbysu cymdogion neu gyhoeddi rhybudd mewn papur newydd lleol. Yn yr un modd, rhoddir pob llythyr a dderbynnir ar y cais cynllunio priodol a bydd swyddog achos yn ei gymryd i ystyriaeth. Bydd cronfa ddata o enwau a chyfeiriadau'r awduron hefyd yn cael ei chreu.

Fe wyr aelodau hefyd fod y Pennaeth Gwasanaeth wedi penderfynu'n ddiweddar na fydd ceisiadau am dyrbinau gwynt neu ddatblygiadau cysylltiedig yn cael ei thrin mwyach gan swyddogion dan bwerau dirprwyol (ac eithrio ceisiadau am dyrbinau gwynt domestig). Caiff y ceisiadau hyn felly eu penderfynu yn y Pwyllgor a bydd adroddiadau'r swyddogion yn nodi faint o sylwadau a gafwyd gan drydydd partion ac yn delio gyda'r materion a godwyd.

Bydd pob penderfyniad a wneir mewn Pwyllgor ar gael yn gyhoeddus ar ffurf cofnodion ffurfiol a bydd rhestr o bob penderfyniad yn parhau i fod ar gael i edrych arni ar wefan y Cyngor.